

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cleifion ag anableddau dysgu mewn ysbytai

Adroddiad am gleifion Cymru

Ebrill 2026



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Perfformiad a
Gwella

Performance and
Improvement

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2026

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cleifion mewnol ag anableddau dysgu mewn ysbytai arbenigol (Data Ebrill 2026).**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

E-bost: LearningDisabilityPolicy@gov.wales



Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. [Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.](#)

Cynnwys

Am yr adroddiad yma.....	4
Beth mae'r adroddiad yn ei ddangos	6
Amser sydd wedi cael ei dreulio yn yr ysbyty	9
Sut rydyn ni'n casglu'r wybodaeth yma	10
Gwybodaeth arall	11
Geiriau a termau pwysig	13

Am yr adroddiad yma



Rydyn ni'n casglu gwybodaeth am:



- pobl ag anabledd dysgu, sy'n byw yng Nghymru,



- pobl sy'n aros dros nos mewn ysbytai.



Mae pobl sy'n aros yn yr ysbyty dros nos yn cael eu galw yn **gleifion mewnol**.



Pan fyddwn ni'n dweud **cleifion mewnol** yn yr adroddiad yma, rydyn ni'n meddwl pobl ag anabledd dysgu o Gymru.



Rydyn ni eisiau gwella'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu am gleifion mewnol ag anabledd dysgu.



Mae grwpiau fel Bywydau wedi'u Dwyn Cymru wedi bod yn gofyn am hyn.



Mae'r adroddiad yma yn dangos yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym ni.



Dyma'r tro cyntaf i ni rannu adroddiad amdano.

Beth mae'r adroddiad yn ei ddangos



Ym mis Ebrill 2026, roedd:

129 o gleifion mewnol ag anabledd dysgu mewn:



- Ysbytai anabledd dysgu.
- Ysbytai iechyd meddwl.



O leiaf 13 o gleifion mewnol newydd ers y tro diwethaf i ni gasglu gwybodaeth.



10 o gleifion mewnol oedd wedi gadael yr ysbyty ers y tro diwethaf i ni gasglu gwybodaeth.



Roedd 121 o gleifion mewnol mewn ysbyty anabledd dysgu.



Roedd 32 o gleifion mewnol mewn **uned asesu a thriniaeth**.

Mae'r rhain yn asesu ac yn cefnogi cleifion. Maen nhw'n dymor byr. Dyma pryd nad oes ffordd o gefnogi cleifion yn ddiogel yn y gymuned.



Roedd 44 o gleifion mewnol yn cael gofal mewn **ysbyty gofal parhaus**.

Mae'r rhain ar gyfer pobl sydd angen cymorth parhaus yn yr ysbyty.



Roedd 18 o gleifion mewnol mewn **ysbyty adsefydlu dan glo**.

Mae hwn yn ysbyty lle nad ydy pobl yn gallu ei adael trwy ddewis.




Roedd 30 o gleifion mewnol mewn **ysbyty diogel**.

Mae hyn ar gyfer pobl â risgiau sydd yn methu cael eu rheoli mewn lleoedd llai diogel.



Roedd 111 o gleifion mewnol mewn ysbytai yng Nghymru.



Roedd 18 yn Lloegr.



Roedd y rhan fwyaf yn ysbytai'r GIG. Roedd rhai mewn ysbytai eraill.

Amser sydd wedi cael ei dreulio yn yr ysbyty



Roedd pobl yn yr ysbyty am wahanol gyfnodau o amser.



Mae'n gyffredin i gleifion mewnol dreulio tua 3 blynedd a hanner yn yr ysbyty.



Fel arfer, roedd pobl yn aros yn llawer llai mewn **unedau asesu a thriniaeth**.



Roedd pobl yn aros yr amseroedd hiraf mewn **ysbytai gofal parhaus**.



Roedd 22 o gleifion mewnol yn barod i adael yr ysbyty ond roedd yn rhaid iddyn nhw aros. Fe wnaeth rhai aros **dros** flwyddyn i adael yr ysbyty.

Sut rydyn ni'n casglu'r wybodaeth yma



Mae pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn casglu'r wybodaeth yma.



Maen nhw'n ei gasglu 4 gwaith y flwyddyn.




Maen nhw'n anfon y wybodaeth at Iechyd a Gofal Digidol Cymru.



Roedd wedi cael ei gasglu gyntaf ym mis Chwefror 2022.



Rhaid i ni ddilyn rheolau wrth gasglu'r wybodaeth. Mae hyn i wneud yn siŵr ei fod o ansawdd da.



Dydy'r wybodaeth ddim yn swyddogol. Mae yna reolau eraill y mae angen eu dilyn i'w gwneud yn swyddogol. Efallai y byddwn ni'n gwneud hyn yn y dyfodol.



Mae'r wybodaeth yn ein helpu i ddysgu mwy am ofal ysbyty i bobl ag anableddau dysgu.

Gwybodaeth arall



Rydyn ni'n casglu gwybodaeth arall am bobl ag anabledd dysgu.



Mae am gleifion mewnol mewn ysbytai ac unedau iechyd meddwl.



Rydych chi'n gallu darllen y wybodaeth yma ar-lein:
[Cleifion mewn ysbytai ac unedau iechyd meddwl yng Nghymru ag anabledd dysgu.](#)



Mae hyn wedi ei gasglu o 2009. Mae'n ddata swyddogol.



Mae'n debyg i'r wybodaeth yn yr adroddiad yma. Ond dydy e ddim yn cynnwys cymaint o wahanol fathau o ysbytai.



Dim ond yn flynyddol mae'n cael ei gasglu hefyd.

Geiriau a termau pwysig

Uned Asesu a Thriniaeth (UAT)

Mae'r rhain yn asesu ac yn cefnogi cleifion. Maen nhw'n dymor byr. Dyma pryd nad oes ffordd o gefnogi cleifion yn ddiogel yn y gymuned.

Ysbyty gofal parhaus

Mae'r rhain ar gyfer pobl sydd angen cymorth parhaus yn yr ysbyty.

Ysbyty adsefydlu dan glo

Mae hwn yn ysbyty diogel neu dan glo. Efallai y bydd angen y gefnogaeth yma ar rai pobl cyn mynd i rywle llai diogel.

Ysbyty diogel

Mae hyn ar gyfer pobl â risgiau sydd yn methu cael eu rheoli mewn lleoedd llai diogel.